# LC1489

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") drwy fewnosod yn Rheoliadau 2006 ofynion yn ymwneud â gwirio pwy yw person a gwirio’i hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig cyn iddo ddechrau ei swydd mewn ysgol. Mae’r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod person a benodir yn athro neu’n athrawes neu’n aelod o staff cymorth mewn ysgol yn destun gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae’r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Gwerthuso Athrawon (Cymru) 2002 ac i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am bwyntiau fformadu sy’n addas i’w cywiro wrth eu cyhoeddi.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Mawrth 2007**